8 Mawrth 2019

I bwy bynnag a fynno wybod,

Fel rheoleiddiwr annibynnol Cymru, rydym wedi bod yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithredu Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill ar draws y system addysg ar faterion sy'n ymwneud â chymwysterau yn y dyfodol.

Fel yr amlinellir yn ein gohebiaeth ddiweddar â'r Gweinidog dros Addysg[1], rydym eisoes yn ystyried yn ofalus sut y gallwn sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i ddiwallu anghenion pobl ifanc 16 oed pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno. Rydym hefyd yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn helpu i lunio trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol, maes o bolisi cenedlaethol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein gwaith. Bydd y ddibyniaeth a roddir ar ganlyniadau cymwysterau mewn trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol yn pennu faint o hyblygrwydd sydd gennym wrth gynllunio'r cymwysterau newydd ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Rydym yn croesawu nod Llywodraeth Cymru o leihau'r pwyslais anghymesur y mae'r trefniadau atebolrwydd presennol yn ei roi ar ganlyniadau cymwysterau, a'r pwysau ychwanegol a roddir ar ysgolion, athrawon a myfyrwyr.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gyfrannu at y gwaith pwysig o sicrhau bod trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol mor effeithiol â phosibl.

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/diwygior-cymwysterau/diwygior-cwricwlwm/the-new-curriculum---correspondence-with-welsh-government/

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cynnig i ddileu'r angen i ysgolion osod targedau seiliedig ar fesurau penodol

Rydym yn cytuno â'r cynnig na ddylai fod yn angen i ysgolion osod targedau yn seiliedig ar fesurau perfformiad cenedlaethol i fyfyrwyr blwyddyn 11. Bydd y newid hwn yn lleihau'r pwysau y mae mesurau atebolrwydd yn ei roi ar gymwysterau a'r effaith anfwriadol o gyfyngu addysgu a dysgu.

Cynnig i gynyddu nifer y targedau nad ydynt yn benodol y mae'n rhaid i ysgolion eu gosod

Mae'n anodd dweud a oes nifer 'cywir' o dargedau y mae'n rhaid i ysgolion eu gosod drostynt eu hunain – dylai ysgolion allu nodi targedau sy'n berthnasol i'w cyd-destun. Mae'r awdurdod lleol, sy'n cydweithio â'r ysgol, yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod cysondeb a chymesuredd ym mhob rhan o'r system. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gall targedau yn seiliedig ar ganlyniadau cymwysterau, p'un a ydynt wedi'u gosod gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol, arwain at gyfyngu ar ymarfer addysgu.

Hyrwyddo gwaith o gyflwyno'r cynigion

Bydd pwyslais ac amrywiaeth y mesurau a gaiff eu gosod gan ysgolion yn bwysicach na nifer y targedau sy'n ofynnol. Mae eisoes yn ofynnol i ysgolion osod rhai targedau nad ydynt yn benodol, sy'n golygu bod ganddynt brofiad o wneud hynny. Fodd bynnag, gallai trefnu cymorth ac arweiniad ar waith i ysgolion eu helpu i fanteisio ar yr hyblygrwydd ychwanegol a gyflwynir gan y cynigion yn yr ymgynghoriad.

Er y bydd cael gwared â'r targedau sy'n ymwneud yn benodol â mesurau penodol a chyflwyno targedau nad ydynt yn benodol yn eu lle yn rhoi'r dewis i ysgolion symud oddi wrth fesurau cyfyngedig, nid yw'n golygu o reidrwydd y byddant yn gwneud hynny. Mae risg y gall rhai ysgolion barhau i ddibynnu ar dargedau cyfarwydd sy'n seiliedig ar fesurau yn hytrach na buddsoddi mewn amrywiaeth ehangach o fesurau i hyrwyddo dealltwriaeth well o ansawdd a gwella ysgolion. Er enghraifft, os bu eu canlyniadau yn hanesyddol yn gadarnhaol mewn perthynas â'r targedau seiliedig ar fesurau penodol.

Er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fanteisio ar yr hyblygrwydd a gyflwynir yn y cynigion, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi arweiniad ar lunio a gosod targedau priodol.

Wrth wneud hynny, gallai hefyd helpu i hyrwyddo mwy o gysondeb o ran y dull gweithredu ym mhob ysgol ac awdurdod lleol. Mae datblygu mesurau a thargedau effeithiol a dibynadwy yn faes technegol a heriol, sydd â risg uchel o ganlyniadau anfwriadol. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i osod rhai targedau yn seiliedig ar ganlyniadau cymwysterau. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi i wneud defnydd priodol o ddata canlyniadau perfformiad, er enghraifft i ganiatáu ar gyfer

amrywiaeth ystadegol arferol o flwyddyn i flwyddyn sy'n gysylltiedig â meintiau sampl cymharol fach ar lefel ysgol. Er enghraifft, wrth ystyried data lefel ysgol ar raddau A* -C, gallwn weld, o safbwynt ystadegol, nad yw'n anarferol i ganlyniadau ysgol mewn pwnc amrywio hyd at 15 pwynt canran o flwyddyn i flwyddyn. Y rheswm dros hyn yw bod ysgolion yn cynrychioli meintiau sampl cymharol fach - hyd yn oed mewn pynciau TGAU poblogaidd, megis Mathemateg neu Saesneg. Gall fod yn fwy arwyddocaol i ysgolion ystyried, er enghraifft, dueddiadau yn eu canlyniadau dros sawl blwyddyn, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar gynnydd neu ostyngiad mewn dwy flynedd academaidd.

Er mwyn llunio barn am ansawdd ysgol, dylai mesurau (gan gynnwys y rheini y caiff targedau eu seilio arnynt) fod yn ehangach na dim ond canlyniadau cymwysterau neu brofion. Gallai gwybodaeth ansoddol fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddehongli newidiadau mewn mesurau.

Er enghraifft, gallai arweiniad awgrymu syniadau ar sut i ymgorffori llais myfyrwyr ar faterion megis addysgu a dysgu, ac adborth gan gymuned ysgol, neu ffyrdd o fesur llesiant myfyrwyr a staff. Gallai lleoliadau cyfrwng Saesneg hefyd fanteisio ar arweiniad am sut i fesur ymgysylltiad â'r Gymraeg a'r defnydd ohoni. Dros amser, gallai fod yn ddefnyddiol i ddatblygu cronfa o adnoddau cenedlaethol yn seiliedig ar arfer da o ran sut y gall ysgolion ddatblygu mesurau effeithiol yn seiliedig ar yr amrywiaeth gyfoethog o ffynonellau data meintiol ac ansoddol sydd ar gael iddynt.

Gwyddom fod y mathau hyn o ystyriaethau eisoes yn cael sylw fel rhan o'r gwaith a gefnogir gan Estyn a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddatblygu pecyn cymorth hunanwerthuso ar gyfer ysgolion. Byddem yn falch o gyfrannu at y gwaith o ddatblygu canllawiau ar ganlyniadau mesurau, naill ai fel rhan o'n rôl mewn perthynas â'r prosiect hwnnw, neu fel rhan o'n gwaith ehangach gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ystyried trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol.

Yn gywir

Ann Evans
Cadeirydd
Cymwysterau Cymru

Philip Blaker
Prif Weithredwr
Cymwysterau Cymru